



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



01/05/2020

Annwyl Rieni,

Gobeithio eich bod yn cadw yn saff ac yn iach – yn gorfforol ac yn feddyliol! Hoffwn ddiolch o galon i chi i gyd am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth hyd yma yn ystod cyfnod heriol a digynsail hwn. Rwyf wedi pwysleisio ers y 'cau lawr' mai lles ac hapusrwydd eich plentyn yw'r flaenoriaeth, ac fe hyderaf eich bod yn sicrhau digon o amser i'ch plentyn yn yr awyr agored, yn ymarfer corff ac yn chwarae, ac eich bod yn mwynhau cyfnodau gwerthfawr yng nghwmni eich gilydd.

Mae'n braf gweld fod y rhan fwyaf o'r plant bellach yn ymgymryd â thasgau a gweithgareddau sydd yn cael eu gosod ar SeeSaw / Google Classroom yn llwyddiannus. Rwyf wedi gweld enghreifftiau o dasgau, ac mae rhai o'r ymatebion wedi bod yn ardderchog. Mae'r llwyfannau digidol yma yn amlwg yn ddolen gyswllt dda iawn rhwng y plant â'r athrawon. Cofiwch, nad oes gorfodaeth ar y plant i gwblhau pob un tasg ac nad oes disgwyl i chi fel rhieni fod yn athrawon nag i'r plant ddysgu fel y byddent yn ei wneud yn yr ysgol. Er hyn, os allwch gefnogi eich plentyn drwy roi cymorth ac arweiniad tra yn gwneud gwaith ysgol, yna bydd hyn yn hynod fuddiol.

Rwyf eisioes wedi pwysleisio ein bod ni yma fel staff i'ch cefnogi – cysylltwch â ni drwy ffonio/ebostio os oes ganddoch unrhyw gwestiwn neu os yw eich plentyn yn dymuno cael sgwrs gyda'i athro dosbarth (gweler rhestr ebyst isod). Cysylltwch â mi yn ddiymdroi os ydych angen sgwrs neu gefnogaeth ychwanegol ar gyfer eich teulu drwy ffonio'r ysgol neu ebostio pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk.

Mae dydd Gwener 08/05/20 yn Ŵyl y Banc, felly ni fydd yr athrawon yn gosod gwaith, nag yn ymateb i waith, ar y diwrnod yma.

Mae'r ysgol yn parhau i fod yn ganolfan gofal plant ar gyfer plant sydd â'u rhieni yn weithwyr allweddol. Os yn gymwys, ac yn dymuno manteisio ar y ddarpariaeth, yna gadewch i Mrs Gillian Morris, Swyddog Cefnogi Ysgol, wybod cyn gynted ag y gallwch drwy ebost o.g.y.dd. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau eich bod yn defnyddio ein darpariaeth fel y dewis olaf. Nid oes dyddiad wedi ei rannu hyd yma gan Llywodraeth Cymru pryd y bydd ysgolion yn ail agor / ail agor yn rhannol.

Rwyf am gloi gyda fy neges arferol: cofiwch mai ein blaenoriaeth rŵan yw hapusrwydd, iechyd, a lles eich plentyn gan sicrhau eich bod yn lleddfu eu pryderon ac nid achosi straen wrth boeni yn ormodol am waith ysgol.

Cofion,

Iwan Wyn Taylor

(Pennaeth)

Mr Rh. Ynyr Jones (Bl.5&6): JonesR919@Hwbcymru.net
Mrs S. Owen (Bl.3&4): OwenS152@Hwbcymru.net
Miss A. Williams (Bl.1&2): WilliamsA1665@Hwbcymru.net
Mrs B. Jones (M/D): JonesB598@Hwbcymru.net
Mrs G. Morris (Swyddog Cefnogi Ysgol): swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk

